Grŵp Cynefin



CANLLAW I'CH

# INSWLEIDDIAD ATIG

## Inswleiddiad ATIG




### Beth sydd wedi'i osod?

Mae inswleiddiad Isover wedi'i osod yn eich eiddo i drwch o 270mm.

Mae inswleiddiad atig yn haenen o ddeunydd yn eich gofod nenfwd sy'n dal gwres, gan wneud eich cartref yn fwy effeithlon o ran ynni ac yn helpu i leihau biliau ynni.

Gosodir yr inswleiddiad mewn dwy haen rhwng ac ar draws y distiau (y trawstiau llorweddol ar hyd llawr eich atig) er mwyn creu haen inswleiddiad gyflawn.

Mae inswleiddiad atig yn atal gwres rhag dianc o ardaloedd byw eich cartref ac yn helpu i gadw'ch cartref yn gynhesach yn y gaeaf ac yn oerach yn yr haf.

## GWYBODAETH DIOGELWCH

- Peidiwch â mynd i'ch atig oherwydd bod inswleiddiad yn gorchuddio'r distiau.
- Cadwch ddeunyddiau inswleiddio oddi wrth blant ac anifeiliaid anwes.

## MANYLION CYSWLLT

**Am waith trwsio brys ffoniwch Grŵp Cynefin: 0300 111 2122**
**Mwy o wybodaeth ar wefan Grŵp Cynefin www.grwpcynefin.org/fy-nghartref-dwin-denant**

Gallwn ddarparu gwybodaeth mewn amrywiol ddulliau gan gynnwys print, print bras, tâp sain a Braille. Cysylltwch â Grŵp Cynefin i gael cymorth pellach.

Stamp Sêl Bendith TENANT

Retrofit